

Tasg 1

Lliwgar! Cyffrous! Anhygoel!

Atebwch y cwestiynau hyn.

1. Pa un o'r teitlau yma fyddai'r un gorau ar gyfer y darn yn eich barn chi?
 - a. Noson Tân Gwyllt
 - b. Gŵyl Lusernau
 - c. Gŵyl Gerddoriaeth Fodern
 - ch. Seremoni Goleuo'r Goleuadau Nadolig

Rhowch reswm dros eich ateb.

2. Beth yw ffurf y darn? (✓)
 - a. neges e-bost
 - b. dyddiadur
 - c. erthygl
 - ch. poster

Rhowch reswm dros eich ateb.

3. Beth yw pwrpas y darn? (✓)
 - a. beirniadu
 - b. denu pobl i'r digwyddiad
 - c. canmol
 - ch. cwyno

Rhowch reswm dros eich ateb.

4. Mae'r arddull yn? (✓)
- a. ffurfiol
 - b. barddonol
 - c. perswadiol
 - ch. ffeithiol

Rhowch reswm dros eich ateb.

--

5. Ticiwch (✓) **Cywir** neu **Anghywir**:

		Cywir	Anghywir
a.	Mae'r ŵyl hon yn digwydd bob 12 mis.		
b.	Bydd yr ŵyl yn dechrau yn ystod y bore.		
c.	Ychydig iawn o bobl sy'n mynd fel arfer.		
ch.	Cystadleuaeth yw'r ŵyl.		
d.	Bydd yr ŵyl yn digwydd yn Ewrop.		

Cywirwch y brawddegau anghywir.

--

6. Edrychwch ar y testun eto:

Dewch i ddathlu'r Nadolig yn

Nos Sadwrn, 22 Rhagfyr, 2018
yn
San Fernando, Y Philipinau




- Dewch i edmygu'r dyfeisiadau enfawr!*
- Dewch i fwynhau'r awyrgylch trydanol!*
- Dewch i deimlo'r wefr wrth i'r awyr ddu droi'n dapestri o liwiau byw - diolch i'r cannoedd o fylbiau trydan ar bob dyfais!*
- Dewch i weld y sioe ysblennydd wrth i'r goleuadau ddawnsio i rythm y gerddoriaeth!*
- Dewch i gadw cwmni i'r miloedd o bobl fydd yn dod i wylïo'r gystadleuaeth.*

Pwy fydd yn ennill?

Y dyfeisiadau mwyaf lliwgar, mwyaf cyffrous, mwyaf anhygoel - wrth gwrs!

*Dewch i fwynhau noson ysblennydd...
ffantastig... anhygoel... ryfeddol...
fendigedig*

Gwelwn ni chi yno!



a. Tanlinellwch bob ansoddair yn y darn.

b. Dewiswch ddau o'r disgrifiadau (enw + ansoddair) gorau yn eich barn chi.
Pam rydych chi wedi dewis y disgrifiadau hyn?

c. Beth yw effaith defnyddio'r radd eithaf yn y darn:

Y dyfefisiadau **mwya**f lliwgar, **mwya**f cyffrous, **mwya**f anhygoel ...!

7. Dewiswch ddigwyddiad fydd yn cael ei gynnal yn eich ardal chi adeg y Nadolig.
Gnewch boster i hysbysebu'r digwyddiad.
Ceisiwch ddefnyddio ansoddeiriau da yn y darn.